

## GWERS 135

### CYFLWYNYDD: CENNARD DAVIES

#### NOD: Trafod dyddiadau / achlysuron pwysig ( important dates / events)

##### Geirfa

pen-blwydd	- a birthday	pen-blwydd priodas	- wedding anniversary
priodas arian	- silver wedding	priodas ruddem	- ruby wedding
priodas aur	- golden wedding	priodas ddiemwnt	- diamond wedding
dathlu	- to celebrate	treulio	- to spend (time)
Y Nadolig	- Christmas	Y Pasg	- Easter
Y Sulgwyn	- Whitsun		
Noswyl y Nadolig	- Christmas Eve	Llun y Pasg	- Easter Monday
gwyliau'r Nadolig	- Christmas holidays	gwyliau'r Pasg	- Easter holidays
		adeg y Pasg	- at Easter time
		gwyliau'r Sulgwyn	- Whitsun holidays
fel arfer	- as usual, usually	roeddwn i'n arfer	- I used to
dramor	- abroad	gartre(f)	- at home
ugain	- 20	deg ar hugain	- 30
deugain	- 40	hanner cant	- 50
trigain	- 60	deg a thrigain	- 70
pedwar ugain	- 80	deg a phedwar ugain	- 90
cant	- 100		

### RHAN 1

#### 1. Enghreifftiau

Fe fyddan nhw'n dathlu eu priodas arian yn nwy fil a chwech.  
- They will be celebrating their silver wedding in 2006.

Fe ddathlon nhw eu priodas ddiemwnt ym mil naw wyth chwech.  
- They celebrated their diamond wedding in 1986.

Roedd Tom a Mari'n dathlu pen-blwydd eu priodas ddoe.  
- Tom and Mari were celebrating their wedding anniversary yesterday.

Fe fyddwn ni'n dathlu pen-blwydd ein priodas yfory.  
- We will be celebrating our wedding anniversary tomorrow.

2. The following shorter, traditional forms of the numbers are commonly used to express age

20 - yn <b>ugain</b> (oed)	30 - yn <b>ddeg ar hugain</b> (oed)
40 - yn <b>ddeugain</b> (oed)	50 - yn <b>hanner cant</b> (oed)
60 - yn <b>drigain</b> (oed)	70 - yn <b>ddeg a thrigain</b> (oed)
80 - yn <b>bedwar ugain</b> (oed)	90 - yn <b>ddeg a phedwar ugain</b> (oed)

Mae hi'n **ugain oed** eleni.  
- She's **twenty** this year.

Roedd Tom **yn ddeg a thrigain** y llynedd.  
- Tom was **seventy** last year.

3. Notice how we express the following

<b>twentieth</b> birthday	- pen-blwydd <b>yn ugain</b> (oed)
<b>sixtyfifth</b> birthday	- pen-blwydd <b>yn drigain a phump</b> (oed)
<b>hundredth</b> birthday	- pen-blwydd <b>yn gant</b> (oed)
his <b>eighteenth</b> birthday	- ei <b>ben-blwydd yn ddeunaw</b> (oed)
his <b>fortieth</b> birthday	- ei <b>ben-blwydd yn ddeugain</b> (oed)
her <b>fiftieth</b> birthday	- ei <b>phen-blwydd yn hanner cant</b> (oed)
her <b>fifteenth</b> birthday	- ei <b>phen-blwydd yn bymtheg</b> (oed)

Mae e'n dathlu ei **ben-blwydd yn drigain oed**.  
- He is celebrating **his sixtieth birthday**.

Pryd dathlodd hi ei phen-blwydd yn gant oed?  
- When did she celebrate her hundredth birthday?

## RHAN 2

1. treulio - to spend (time)

Rydyn ni'n arfer **treulio** gwyliau'r Nadolig gartre'.  
- We usually **spend** the Christmas holiday at home.

Roedden ni'n arfer **treulio** ein gwyliau Pasg dramor.  
- We used to **spend** our Easter holiday abroad.

2. Notice how the definite article precedes the festivals

Y Nadolig    Y Pasg    Y Sulgwyn

Ble roeddet ti y Nadolig diwetha'?'  
- Where were you last Christmas?

Fyddwch chi'n treulio'r Pasg gyda'r teulu?  
- Will you be spending Easter with the family?

3. Notice

dros y Nadolig    -    over Christmas  
dros y Pasg       -    over Easter  
dros y Sulgwyn    -    over Whitsun

Ble aethoch chi dros y Sulgwyn? - I Ffrainc.  
- Where did you go over Whitsun? - To France.

Fe aethon nhw i Sbaen dros y Pasg.  
- They went to Spain over Easter.

Fe arhoson nhw gartref adeg y Nadolig.  
- They stayed at home Christmas time.

4. 'tramor' becomes 'dramor' when it is used adverbially

Rydyn ni'n mynd **dramor** adeg y Pasg.  
- We're going **abroad** (at) Easter time.